Taith Gerdded Meisgyn

Gan ddechrau yng nghanol Meisgyn, ewch i lawr ar hyd Ffordd Hensol, gan groesi dros y rheilffordd a mynd heibio i Chapel House a Melin Meisgyn.

Parhewch ar hyd y ffordd hon ac, ychydig ar ôl mynd o dan yr M4, trowch i'r dde ar y llwybr troed sy'n dilyn y lôn sy'n gyfochrog â'r M4.

Ar ben y llethr, lle mae'r llwybr yn troi'n sydyn i'r chwith, croeswch i'r cae o'ch blaen a dilynwch y llwybr i lawr nes bod y llwybr yn rhannu. Cymerwch y llwybr hanner-chwith sy'n mynd i lawr drwy'r coed.

Ar waelod y bryn, trowch i'r dde a dilynwch y llwybr i mewn i'r coed, drwy giât ac yna dros y nant. Dilynwch y llwybr i fyny'r bryn a gadewch y goedwig dros y gamfa. Os trowch i'r dde, bydd hynny'n eich arwain tuag at Faenor Talygarn, ond rydym yn mynd i'r chwith i lawr y lôn.

Trowch i'r chwith eto wrth y gyffordd a pharhewch nes cyrraedd y llyn.

Dargyfeiriad dewisol

Os hoffech gael dargyfeiriad, trowch i'r dde a dilynwch lan y llyn tuag at Faenor Talygarn ac Adam's Bridge, sydd i'w weld ym mhen pellaf y llyn. Gallwch wedyn ddychwelyd yr un ffordd i barhau â'r daith.

Parhewch ar hyd y lôn, gan groesi'r bont, ac yna trowch yn syth i'r chwith ar y llwybr troed.

Dilynwch y llwybr hwn drwy'r coed ac ymlaen i'r caeau. Ymhen amser, bydd y llwybr yn cyrraedd lôn. Dilynwch y lôn hon nes cyrraedd cyffordd T ar ffordd. Trowch i'r chwith a dilynwch y lôn, yna trowch i'r dde wrth y gyffordd T nesaf.

Dilynwch y ffordd hon ac, ar ôl tua 200 metr, fe welwch fwlch yn y gwrych ar y chwith gyda giât. Ewch drwy'r giât a dilynwch y llwybr i lawr y cae at y giât ym mhen draw, ger fferm Caergwanaf Isaf.

Y tu ôl i'r fferm mae dau gaeadle cynhanesyddol. Nid oes mynediad cyhoeddus at y rhain.

Ewch i mewn i fuarth y fferm a throwch yn syth i'r chwith. Mae'r llwybr yn mynd rhwng y ddwy ysgubor ac yn syth allan tuag at yr M4, sydd i'w weld yn y pellter.

Dilynwch ochr dde'r caeau, gan fynd drwy ddwy giât, nes cyrraedd yr M4.

Ar eich chwith, yn y dyffryn, gallwch weld tai ac, y tu ôl iddynt, to Pantaquesta House.

Pan gyrhaeddwch ffin yr M4, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr sy'n gyfochrog â'r ffordd.

Ym mhen draw, ar yr ochr dde, mae gamfa sy'n arwain at y ffordd. Ewch drosto, trowch i'r dde a dilynwch y ffordd yn ôl i Feisgyn.